**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

02 Hydref 2017

Annwyl Mark,

**BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)**

Rwy'n falch o roi gwybod ichi fy mod heddiw wedi gosod Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol yn ffurfiol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddaf yn gwneud datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 4 Hydref 2017.

Rwy'n awyddus i weithio gyda chi a'ch swyddogion, i symud y Bil yn ei flaen mewn modd sy'n foddhaol i'r ddau ohonom. Byddai felly yn ddefnyddiol pe gallem gyfarfod i drafod safbwynt y Llywodraeth ynglŷn â'r Bil ac ynglŷn â'r penderfyniad ariannol y mae'r Llywydd wedi cadarnhau y bydd yn ofynnol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â Chlerc y Pwyllgor (**seneddcyllid@cymru.gov.uk** 0300 200 6343) i drefnu amser addas.

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English*

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565